

## OWEN, GWILYM (1880 - 1940), gwyddonydd ac athro anianeg yng ngholeg y brifysgol yn Aberystwyth

**Enw:** Gwilym Owen  
**Dyddiad geni:** 1880  
**Dyddiad marw:** 1940  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gwyddonydd ac athro anianeg yng ngholeg y brifysgol yn Aberystwyth  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Gwyddoniaeth a Mathemateg  
**Awdur:** Edwin Augustine Owen

Ganwyd 19 Gorffennaf 1880 yn Ninbych, yn fab i William Owen, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfaidd yn Lerpwl ac wedyn yng Nghonwy. Cafodd ei addysg fore yn ysgolion elfennol Bodfari a Henllan, a bu am 5 mlynedd yn ysgol ramadeg Rhuthun. Graddiodd ym mhrifysgol Lerpwl gyda chlod uchel yn 1901 ac enillodd ysgoloriaeth yr '1851 Exhibition' a fu'n foddion iddo allu mynd i goleg Crist, Caergrawnt, ac i wneud gwaith ymchwil yn labordy Cavendish dan Syr J. J. Thomson. Ar derfyn ei yrfa yng Nghaergrawnt yn 1905 apwyntiwyd ef yn ddarlithydd yn adran anianeg prifysgol Lerpwl lle y bu hyd 1913, pryd yr etholwyd ef i gadair athro anianeg yn Auckland, New Zealand. Bu gyda lluoedd arfog New Zealand yn y rhyfel mawr cyntaf am 4 blynedd. Yn 1919 fe'i apwyntiwyd yn athro anianeg yng ngholeg y brifysgol yn Aberystwyth. Etholwyd ef yn is-brifathro yn 1932 ac ar ôl ymneilltuad Syr Henry Stuart Jones yn gynnar yn 1934, bu am flwyddyn yn brifathro gweithredol ac yna yn is-brifathro drachefn hyd 1936. Ym Medi y flwyddyn honno trawyd ef yn sydyn gan afiechyd poenus, a bu raid iddo ymadael yn llwyr â'i waith yn y coleg. Yng Nghaergrawnt, ac wedi hynny yn Lerpwl, gwnaeth amryw ymchwiliadau pwysig ar ffenomenâu ynglŷn â'r electron, ond fel darlithydd clir a deniadol y cofir yn bennaf amdano. Meddai'r ddawn i drosglwyddo ffeithiau anodd mewn anianeg fel y gallai dyn heb fawr wybodaeth am anianeg eu deall. Drwy ei fedr fel darlithydd medrai wneud pwnc dyrus yn hawdd ei ddeall gan ei ddisgyblion, oblegid cymerai drafferth neilltuol i baratoi ei ddarlithiau i'w ddsbarthiadau ac i ddangos iddynt arbrofion i esbonio'r testun dan sylw. Am ei fod yn nodedig fel darlithydd clir a dengar, gelwid arno'n fynych i annerch cynulliadau oddi allan i'r coleg a gwnai hynny fel rheol yn Gymraeg. Ysgrifennai hefyd Gymraeg graenus, a chyhoeddodd y llyfrau canlynol: *Athroniaeth Pethau Cyffredin* (1907); *Cwrr y Llen* (1914); *Rhyfeddodau'r Cread* (1933); *Y Mawr a'r Bach* (1936), ac ysgrif (gyda'r Prifathro Owen Prys ar y testun ' God and the Universe '. Cyhoeddodd hefyd nifer helaeth o ysgrifau yn y prif gyfnodolion Cymraeg ar bynciau gwyddonol. Trwy ei gyfraniadau lledoddd orwelion yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg, a dangosodd fod yr iaith, yn llaw'r cyfarwydd, yn abl i ymateb i holl ofynion gwyddoniaeth. Rhan o'i gyfrinach a'i lwyddiant arbennig fel athro oedd ei fedr i ddeall anawsterau a mesur adnoddau ei wrandawyr, ac yna ymboeni'n amyneddgar i'w dwyn hwythau i'w ddilyn yn ei ddehongliad o'i bwnc. Yn llysoedd a phwyllgorau'r brifysgol, y tu allan i'w goleg ei hun, enillodd barch mawr am ei anhunanoldeb, ei symlder, ei bwyll a'i farn aeddfed. Perchid ef gan ei Gyfundeb a'i eglwys, a bu'n un o'r llyegwyr dysgedig mwyaf eu parch yng nghynadleddau crefyddol ei wlad. Bu farw 9 Tachwedd 1940 a chladdwyd ef yn mynwent Toxteth, Lerpwl.

### Awdur

Edwin Augustine Owen, (1887 - 1973)

### Ffynonellau

Y *Faner*, 16 Tachwedd 1940

*Proceedings of the Physical Society*, 1940, Vol. 54

gwybodaeth bersonol

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gwilym Owen

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13128857

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn eiddo gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government